Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ADRODDIAD

# Cyd-ddatganiad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar reoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus

Annog sefydliadau gwasaaethau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o reoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Gorffennaf 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Gorffennaf 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-cyd-ddatganiad-ar-reoli-asbestos-mewn-adeiladau-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Peryglon asbestos**

**Rheoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus**

**Gwybodaeth bellach**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-cyd-ddatganiad-ar-reoli-asbestos-mewn-adeiladau-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cyngor Partneriaeth y Gweithlu
Workforce Partnership Council

# Cyflwyniad

Partneriaeth gymdeithasol deirochrog yw Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, sy'n cynnwys yr undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'n cwmpasu'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a fforwm materion gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny.

Mae WPC yn cyhoeddi'r Cyd-ddatganiad hwn i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ledled Cymru i gydnabod y peryglon iechyd difrifol sy'n gysylltiedig â dod i gysylltiad ag asbestos a phwysigrwydd nodi asbestos a'i reoli'n ddiogel lle bynnag y deuir o hyd iddo mewn adeiladau cyhoeddus Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r materion hynny sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant gweithlu ein gwasanaethau cyhoeddus ac yn gofyn am ymrwymiad newydd gan sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i reoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus, i amddiffyn y gweithlu a'r rhai a wasanaethir ganddynt.

# Peryglon asbestos

Mae clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos yn lladd rhyw bum mil o bobl yn y DU bob blwyddyn. Yn aml nid yw presenoldeb asbestos yn hysbys nes iddo ddod i'r amlwg trwy draul neu ddifrod. Ers y flwyddyn 2000 mae'n anghyfreithiol defnyddio asbestos wrth adeiladu neu adnewyddu safleoedd yn y DU ond mae

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-cyd-ddatganiad-ar-reoli-asbestos-mewn-adeiladau-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cryn dipyn o'r defnydd yn dal yn ei le. Er y gall asbestos achosi risg i'r cyhoedd a gweithwyr cyflogedig fel ei gilydd, gweithwyr sy'n ymwneud ag ailwampio neu gynnal a chadw adeiladau a masnachau tebyg eraill sy'n wynebu'r risg mwyaf.

## Rheoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus

Hoffai WPC hybu adolygiad ac ymrwymiad newydd gan sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i reoli asbestos yn eich ystadau. Mae'n cydnabod bod rheoli asbestos yn fater cymhleth ond mae'r bygythiad difrifol iawn y mae asbestos yn ei achosi yn golygu bod angen i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus fod yn rhagweithiol a chanolbwyntio ar gamau i sicrhau bod asbestos yn caei ei reoli'n effeithiol.

Hoffai WPC sicrhau pawb sy'n cael mynediad i'n hadeiladau cyhoeddus bod y prosesau sy'n bodoli i'w hamddiffyn yn cael eu rheoli'n rhagweithiol a'u hadolygu'n rheolaidd, a bod mesurau priodol yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Asbestos (2012), Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chanllawiau Rheoli Asbestos mewn Ysgolion (diweddarwyd 2019) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Ystadau Cymru, sef grŵp rheoli ystadau'r sector cyhoeddus, wedi ymrwymo i archwilio'r mater o reoli asbestos mewn adeiladau cyhoeddus. Mae is-grŵp penodol yn cael ei sefydlu i gynnal adolygiad strategol o'r mater.

## Gwybodaeth bellach

**Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012** (Saesneg yn unig)
**Chanllawiau Rheoli Asbestos mewn Ysgolion** (diweddarwyd 2022)
**Cyngor yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar Reoli Asbestos**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-cyd-ddatganiad-ar-reoli-asbestos-mewn-adeiladau-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-gweithlu-cyd-ddatganiad-ar-reoli-asbestos-mewn-adeiladau-cyhoeddus-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.